PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 416 | Chwefror 2019



Cerddwyr Rhydypennau t.7



Edrych yn ôl t.9



Arfordir t.15

# Y Llwybr Llydan



Mae gwaith wedi cychwyn ar adeiladu llwybr newydd a rennir ar gyfer beicwyr a cherddwyr rhwng Bow Street a champws IBERS Prifysgol Aberystwyth ym Mhlas Gogerddan. Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan gontractwr lleol.

Mae'r gwaith yn cael ei ariannu gan grant o Lywodraeth Cymru ac arian cyfatebol gan Gyngor Sir Ceredigion; disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Mae ardaloedd cynefinoedd bywyd gwyllt ac ailblannu wedi'u hymgorffori yn y cynllun. Pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau, bydd y rhan hon o'r llwybr yn darparu llwybr mwy diogel i gerddwyr a beicwyr rhwng Plas Gogerddan a phrosiect Trafnidiaeth Cymru yn Bow Street. Bydd hyn yn darparu cyfnewidfa a gorsaf reilffordd newydd yn Bow Street. Bwriedir i hyn agor yng Ngwanwyn 2020.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Edwards, yr aelod Cabinet a chyfrifoldeb dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, "Fel cyngor, un o'n prif flaenoriaethau yw sicrhau diogelwch y cyhoedd a gyda'r llwybr newydd hwn bydd yn cynyddu hygyrchedd a diogelwch. Bydd y llwybr newydd hwn yn cynyddu'r defnydd o feiciau yn yr ardal"

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth ar gynigion Cam 2 er mwyn datblygu'r llwybr tuag at Benrhyn-coch yn y flwyddyn ariannol nesaf.



Ioan ar ben y byd - dringo Aconcagua. Gweler t.10

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Edwards**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg,
Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mawrth | Deunydd i law:** Mawrth 8 **Dyddiad cyhoeddi:** Mawrth 20

**CHWEFROR 20** Nos Fercher Idris Reynolds yn trafod ei gyfrol *Cofio Dic* Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30.

**CHWEFROR 21** Nos Iau Cyfarfod apêl Tirymynach, Eisteddfod 2020, yn Neuadd Rhydypennau am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

**CHWEFROR 27** Nos Fercher Pwyllgor Apêl Melindwr Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020 yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30

**MAWRTH 1** Nos Wener Noson o gawl a chân a mwy yng nghwmni Bois y Rhedyn yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 7.00. Tocynnau: £15 yr un; ar gael oddi wrth aelodau'r pwyllgor neu oddi wrth Siop y Pethe neu Inc. Elw'r noson i Apêl Aberystwyth a'r cylch tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020

**MAWRTH 2** Nos Sadwrn Parti pen blwydd 34 Llwybr Llaethog yn y Coliseum, Aberystwyth am 19.30

**MAWRTH 4** Nos Lun Hanes Florrie Hamer (1903 - 1994) gan Helen Palmer Archifydd y Sir, Archifdy Ceredigion yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch am 7.30. Mynediad am ddim. Croeso cynnes.

**MAWRTH 5** Nos Fawrth Ynyd Noson Grempog ac Adloniant yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

**MAWRTH 5-8** Nos Fawrth i nos Wener Cwmni'r Frân Wen yn cyflwyno Ffion Dafis yn Anweledig (Aled Jones Williams) yn Theatr y Werin am 7.30 Bore yn unig am 10.00 dydd Iau 7 £12 (£10)

**MAWRTH 8** Nos Wener Noson Gyri yn Nhŷ Bwyta'r Shilam. Bwytewch gymaint ag ydych chi eisiau! Gan ein bod yn yr orsaf drenau, byddwn hefyd yn trafod trenau. £20 y pen. Cysylltwch â Mererid Boswell am fwy o wybodaeth. Yr elw at Apêl Aberystwyth a'r Cylch ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

**MAWRTH 13** Nos Fercher Noson gyrri yn Nhafarn y Blac, Bow Street dan ofal apêl Tirymynach, Eisteddfod 2020. Croeso i bawb. Tocynnau: £10 (nifer cyfyngedig ar gael). Ffoniwch 07480 348 938 i gael tocyn a nodi'ch dewis bwyd.

**MAWRTH 16** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yn Libanus , y Borth gwraig wadd: Esyllt Sears. Manylion gan Ceris Gruffudd Ceris.Gruffudd@gmail.com

**MAWRTH 16-22** Agor Drysau Am fwy o wybodaeth post@aradgoch.org

**MAWRTH 22 -23** Nos Wener a Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch

**MAWRTH 27** Nos Fercher Sioe Ffasiwn Ysgol Penweddig, am 7.00 yn Neuadd Ysgol Penweddig, Dillad gan Cactws, Closet a M&Co, tocynnau: oedolion £5, plant £3, gan gynnwys caws a gwin/diod ysgafn. Elw tuag at Gymdeithas Athrawon a Rhieni Penweddig ac Eisteddfod Ceredigion 2020. Tocynnau ar werth yn Siop Inc.

**EBRILL 6-7** Dyddiau Sadwrn a Sul Twrnament Pêl-droed Penrhyn-coch. Grwpiau oedran – dan 6, 8, 9, 11, 12,14; merched dan 11, 12. Am fwy o fanylion cysylltwch â holmesm5@sky.com


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ionawr 2019

**£25** (Rhif 245 ) Elwyn Ioan, 11 Ffordd y Drindod, Aberystwyth

**£15** (Rhif 199 ) Y Parchg Judith Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch

**£10** (Rhif 30 ) Mary Thomas, Tŷ Clyd, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Ionawr 16

## 30 MLYNEDD YN OL



Mr Derek Davies yn cyflwyno siec ar ran y plwyfolion i'r Parchedig Maldwyn a Bidi Griffiths fel gwerthfawrogiad o'u cyfraniad i'r Eglwys a'r ardal. Llun: Arvid Parry Jones (O *Dincer* Chwefror 1989)

**CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION**

Rihyrsals nosweithiau Mercher am 7.00.

*Ebrill*

**3** Capel y Morfa
**10** Capel y Garn
**17** Seion Aberystwyth
**30** Nos Fawrth Bethel, Tal-y-bont

*Mai*

**8** Bethel, Aberystwyth
**12** Dydd Sul Cymanfa Ganu yng Nghapel Bethel, Aberystwyth am 10.00 a 5.30. Arweinydd: Geraint Roberts, Prestatyn

Annwyl Olygydd

**Ffair Hen Lyfrau Cymraeg a Chymreig, Morlan, Aberystwyth, Dydd Sadwrn, Mawrth 30ain, 10 y bore tan 4 y prynhawn. (Mynediad £1.00)**

Dim ond gair byr i hysbysu eich darllenwyr am ddigwyddiad go arbennig yng Nghanolfan Morlan, Aberystwyth fis Mawrth eleni, sef Ffair hen lyfrau. Bydd miloedd o lyfrau ail-law a hynafiaethol Cymraeg a Chymreig yn cael eu gwerthu yno gan lyfrwerthwyr o bob rhan o Gymru. Felly beth bynnag yw eich diddordeb, bydded yn hanes Cymru, hanes lleol neu lenyddiaeth dewch draw i chwilota. Byddwch yn siwr o ddod o hyd i rywbeth sydd at eich dant. Bydd unrhyw elw a wneir yn mynd at gyhoeddi *Y Casglwr,* sef cylchgrawn Cymdeithas Bob Owen. Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu a mi trwy ffonio/tecstio 07930 160848 neu anfon at cloriau@btinternet.com Dewch yn llu!

Yn gywir
Gwyn Tudur (Trefnydd)

**Eglwys Efengylaidd Aberystwyth**

Gwahoddiad i ymuno â ni yn ein Noson Gŵyl Ddewi yng Nghanolfan Y Gymuned, Waunfawr nos Sadwrn Mawrth 9fed am 6.00. Cawl, cân a chwis

Siaradwr: Gwyon Jenkins, Llanelli.

Croeso cynnes i bawb

**Cyfeillion Ellis Wynne**

Dymuna'r Cyfeillion estyn gwahoddiad i drigolion Cymru ben baladr a thu hwnt draw i'r Lasynys ac i ymuno fel aelod o'r elusen. Gall cynyddu nifer yr aelodau arwain at ddatblygiadau pellach ar y safle, megis arlwy addysgiadol gydol oes – nad yw'n cyrraedd ei lawn botensial ar hyn o bryd.

Am ymaelodi, rhennir holl wybodaeth gyda'r aelodau am yr holl achlysuron a drefnir gan y Cyfeillion yn ystod y flwyddyn, a llyfryn gwybodaeth am y tŷ yn ogystal. Pe dymuna'r darllenydd ymaelodi, dylid cysylltu â tudur. colwyn@tiscali.co.uk, sef trysorydd y Cyfeillion neu d/o 30 Ffordd Dolwen, Bae Colwyn, LL29 8UP. Edrychwn ymlaen at eich croesawu acw.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

- yn bont – rhwng yr eglwys a'r gymdeithas
- yn fan cyfarfod – i greu, i berfformio, i wrando, i ddysgu, i rannu
- yn lle agored – i bobl o bob oed a chefndir a chred; cartref i'r gymuned

**www.morlan.cymru**
**01970 617996**
**morlan.aber@gmail.com**
**morlan.cymru**

**Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH**
**01970-617996; post@morlan.cymru**

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

GWASANAETH **TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
**IONA BAILEY**
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH CYFIEITHU
**Linda Griffiths**
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
Brecwast
ar gael
01970 820 050
Pennau

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Gwella**

Mae Gwen Morgan, y Byngalo, wedi cael llawdriniaeth ar ei dau lygad yn ystod y misoedd diwethaf a braf yw dweud fod ei golwg wedi gwella tipyn erbyn hyn.

**Urdd y Benywod**

Cynhaliwyd bore coffi yn y Ganolfan a daeth tua ugain o bobl o bob oed ynghyd. Cawsom gwmni Brian Swaddling - myfyriwr sydd wedi bod yn gwneud prosiect ar yr afon Rheidol. Roedd wedi bod yn brysur yn recordio lleisiau llawer o drigolion yr ardal gan gofnodi eu meddyliau a'u hatgofion am yr afon dros y blynyddoedd. Bore diddorol iawn. Diolchodd Carol Marshall yn gynnes iawn iddo.

# Amhos!b

D. Geraint Lewis *Amhos!b* Y Lolfa 146t £6.99

Byddai'n werth ystyried rhoi copi o'r gyfrol hon yn anrheg i bob disgybl ysgol dros 13 oed. Efallai na fyddai'n ei ddarllen o glawr i glawr – ond byddai'n werslyfr answyddogol go lew i lawer. Haws, mae'n siŵr, ydy annog rhieni i wario seithbunt er lles eu plant.

Llyfr sy'n llawn ffeithiau difyr ydy hwn, gyda broliant ar y clawr sy'n ymylu ar fod yn rhyfygus wrth honni bod yn y gyfrol '... syniadau fydd yn newid dy fyd am byth'. Dwn i ddim am hynny, ond mae'r ffeithiau yn cael eu cyfoethogi gan sylwadau athronyddol a gwirebau synhwyrol. Weithiau mae yma ddadleuon ysgolheigaidd, ac ynghanol y pentwr o wybodaeth, ceir barn bersonol hefyd.


Gellid bod wedi chwynnu rhai cyfraniadau, ac ailystyried beth i'w gynnwys mewn ambell bennod. Er enghraifft, ar dudalen 60 wrth sôn am farwolaeth Dr David Kelly, dywedir: 'Dyma drychineb fwyaf y byd yn ddiweddar ac un yr ydym yn dal i dalu'n ddrud amdani'. Gor-ddweud, siawns. Wrth gwrs, roedd amheuon gan rai am 'hunanladdiad' Dr Kelly, ac mae'r rheiny'n parhau, ond does dim llawer o egluro'r cyd-destun o ran llywodraeth y dydd, y wasg ac un newyddiadurwr yn benodol wedi tasg y Cenhedloedd Unedig yn Irac cyn rhyfel 2003.

Yr unig gŵyn arall ydy diwyg y clawr, ac fe hoffwn fod wedi cael mwy o luniau, diagramau, graffeg a mapiau i fywiogi'r gyfrol. Ond mae honno, o bosib, yn hen gŵyn am nifer o lyfrau yn y Gymraeg.

At yr ysgrifennu: mae hwnnw'n gynnes ac mae iddo osgo gyson braf drwyddi draw. Nid dim ond y defnydd o 'ti' a 'thithau' sy'n gyfrifol am hynny, ond arddull Geraint Lewis hefyd. Mae'n gyfathrebwr rhwydd, ac mae'r rhagair a'r rhagymadrodd yn arwain y darllenydd yn gampus at y cynnwys. Yn y rhagymadrodd, mae'n pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu – 'Un o gyneddfau pwysicaf dynolryw', yn ôl yr awdur.

Amserol ydy'r paragraff am 'ryddid' y Gorllewin. Mewn oes o gyhuddiadau am 'newyddion ffug' a llai a llai yn pleidleisio mewn etholiadau, mae angen trafod ein cyfundrefnau, a'r hyn sy'n cael ei gymryd yn ganiataol yn ein democratiaeth.

Y bennod 'Gochelwch rhag' ydy un o'r difyrraf, ac yn anffodus, y fyrraf. Mi hoffais y dadansoddi ar ddeallusrwydd ar dudalen 88, wrth ystyried beth ydy 'arbenigwr'. Mae sawl pwt barddonol yn goglais, a darnau eraill fel 'Blue Sky July' yn asio'n dda. Nid yw'r awdur yn fodlon rhestru ffeithiau, ac fe dry at drafod athronyddol ar adegau hefyd. Diddorol oedd yr asesiad o ystyr y gair *Ubuntu* yn Ne Affrica.




Dwn i ddim beth yw tarddiad y rhestru ar ystyron 'Dedwyddwch' ym mhennod 8, ond anodd meddwl am faniffesto gwell i fywyd. Os nad ydy'r enaid wedi ei ddigoni erbyn hynny mae trafod yn ogystal ar grefydd, gwyddoniaeth a gwirioneddau Gaia. Y byd yn grwn, a holl elfennau bywyd rhwng dau glawr? 'Amhos!b'!

**Iolo ap Dafydd**

Adolygiad oddi ar *www.gwales.com*, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

# Y BORTH

**Cystadleuaeth Golff Agored Cronfa'r Eisteddfod Genedlaethol**
Dydd Sadwrn 20fed Gorffennaf eleni cynhelir cystadleuaeth i godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yn y Borth, sef Cystadleuaeth Stableford i dimau o 4 gyda'r 2 sgôr orau i gyfrif. Bydd yn agored i bob golffiwr – handicap y gystadleuaeth yn gyfyngedig i 28 (Dynion), 36 (Menywod). Bydd taliad o £100 i bob tîm o 4. Yr amseroedd dechrau fydd rhwng 8am – 2.30pm. Am fwy o fanylion cysylltwch â: Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las, Y Borth, Ceredigion, SY24 5JS

**Cyfeillion Amgueddfa Reilffordd y Borth**
Bu'n flwyddyn arall dda i'r Amgueddfa. Cafwyd 5,129 o ymwelwyr yn ystod 2018 sydd yn gwneud cyfanswm o 45,214 ers 2013. Cafodd y gwres mawr ym Mehefin a Gorffennaf effaith ar yr ymwelwyr – roedd pawb yn aros ar y traeth!

Ym mis Hydref ffarweliwyd a Arriva Trains Wales a chafwyd contract newydd gyda Thrafnidiaeth Cymru. Arwyddodd yr Amgueddfa les newydd efo'r cwmni sydd yn rhoi defnydd yr adeilad iddynt

Defnyddiwyd yr hen fagiau sydd gennym yn y cynhyrchiad o The Railway children yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

Cafwyd cefnogaeth dda i'n stondin yn Ffair Grefftau'r pentref a gwnaethpwyd dros gan punt ar y raffl yn unig.

Gobeithiwn gael tywydd teg dros hanner tymor sydd ar y gorwel – y dyddiau y bydd yr Amgueddfa ar agor fydd Chwefror 23, 24, 26, 28 a Mawrth 2 a 3.

**Gwella**
Braf yw deall fod Heulwen Lewis, Penwern, adref ac yn teimlo'n well ar ôl bod yn yr ysbyty yn Abertawe yn derbyn triniaeth i'w chefn.

**Newid aelwyd**
Dymunwn yn dda i Eurgain Rowlands a symudodd yn ddiweddar o Hafod Heli i Gaerfyrddin. Pob hwyl iddi yn ei hardal newydd.

**Pen blwydd arbennig**
Hoffai teulu Billy Williams, Tŷ Du, ei longyfarch ar gyrraedd ei ben blwydd yn 80 ganol mis Ionawr.






# Colofn BEN LAKE AS

Does dim osgoi'r anrhefn a'r llanast yn Senedd San Steffan ar hyn o bryd. Mae'r awyrgylch wrth droedio'r coridorau yn brudd ac mae'n anodd gweld goleuni ym mhen draw'r twnnel tywyll yn sgîl Brexit.

Yma yng Ngheredigion a gorllewin Cymru, does dim dwywaith ein bod ni wedi elwa o'r buddsoddiadau yr ydym wedi ei dderbyn gan yr Undeb Ewropeaidd. Rhwng 2014 a 2020, bydd Cymru wedi derbyn dros £2 biliwn, ond unwaith y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael, bydd mynediad at y cronfeydd ariannol hynny, wrth reswm, yn dod i ben.

Nod cyllid yr Undeb Ewropeaidd yw lleihau'r anghydraddoldeb economaidd sy'n bodoli rhwng gwledydd a rhanbarthau – y math o anghydbwysedd economaidd sy'n gweld ein pobl ifanc yn gorfod gadael i chwilio am waith ymhell o'u cynefin.

Addawodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddent yn disodli buddsoddiad yr Undeb Ewropeaidd gyda chronfa newydd ar ôl Brexit, dan y teitl "Cronfa Ffyniant Gyffredin".

Er gwaethaf yr addewidion i ymgynghori ar fanylion y gronfa cyn diwedd 2018, ry'n ni'n dal i aros am ragor o wybodaeth. Nid ydym yn gwybod faint o arian fydd yn y gronfa, sut bydd y cyllid yn cael ei rannu ar draws y Deyrnas Unedig, na phwy fydd yn gyfrifol am wario'r arian.

Dwi wedi holi a holi, yn ysgrifenedig ac yn y siambr, dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf am ragor o fanylion am y gronfa, ac am sicrwydd na fydd cefn gwlad Ceredigion ar ei cholled unwaith eto, dan law San Steffan, ond dwi'n dal i aros am atebion pendant.

Mae'n hollbwysig bod gan Gymru lais ynghylch ble a sut yr ydym yn buddsoddi yn ein gwlad, a bod y blaenoriaethau ar gyfer ein cenedl yn cael eu penderfynu yma yng Nghymru, ac nid yn Llundain. Byddaf yn parhau i godi fy llais yn San Steffan er mwyn sicrhau tegwch i gymunedau Ceredigion.

Os hoffech chi gysylltu â mi am unrhyw fater, mae croeso i chi ffonio fy swyddfa ar 01570 940333 neu ebostio ben.lake.mp@parliament.uk

Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# LLANDRE

**Pen blwydd**
Llongyfarchiadau i Rhodri a Sarah Millichamp ar ddathlu eu pen blwydd yn 30


**Gwellhad buan**
Gwellhad buan i Christine Millichamp sydd wedi bod yn ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

**Canlyniadau Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFfI Ceredigion**
Llongyfarchiadau i'r cnalynol yn y gystadleuaeth dan 14 oed.
Darllenydd Gorau: Elain Tanat CFfI Tal-y-bont
Tîm Gorau dan 14 oed: CFfI Tal-y-bont Oisin, (Bont-goch), Elain Tanat ac Elen Madrun (Llys Berw)
Daeth Oisin yn ail am ddarllen ac yn ail fel cadeirydd.
Yn y gystadleuaeth dan 16 daeth Teleri Morgan (Pwll-glas) yn 3ydd am siarad cyhoeddus.




Tecwyn Jones. *Hwyr y dydd.* Ar gael o Wenallt, 23 Tregarth, Machynlleth, SY20 8HU am £10 neu o Awen Meirion, y Bala.

Mae Tecwyn Jones yn wyneb cyfarwydd yng Nghanolbarth Cymru – yn frodor o Lanuwchllyn bu'n bostman ym Machynlleth am flynyddoedd lle roedd hefyd yn arwain Côr Meibion Powys, Machynlleth. Fe'i clywir yn aml ar Radio Cymru yn sgwrsio gyda Geraint Lloyd am gyngherddau mae yn cynorthwyo i'w trefnu ym Machynlleth ac mae i'w weld yn gyson yn gwirfoddoli yng Nghapel y Tabernacl, Machynlleth. Mae yn gyn Faer Machynlleth ac yn ymwelydd cyson â'r ardal hon – yn cynnal oedfaon yn y capeli yn achlysurol ac mae ef a'i wyres Alaw yn gystadleuwyr ffyddlon yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch.




Soniodd ar un o'r sgyrsiau radio yn ddiweddar ei fod yn cofio clywed Ifor, y gwas,yn Eithin Mynydd, Llanuwchllyn, yn dweud ei fod yn canu pan yn 10 mis oed – felly mae'n canu ers 83 o flynyddoedd! Yn eu tro bu'n canu gyda Chôr Ieuencid ???, Côr Godre'r Aran a Chôr Meibion Powys.

Ychydig cyn y Nadolig cyhoeddwyd CD i'r eiddo. Arni gwelir 18 o ganeuon gydag amrywiaeth helaeth. Mae saith emyn - Rhondda, Fleming, Maglona, Cynhaeaf, (Dresden), Sirioldeb, Caersalem, a Llanbedr. Enwyd y dôn Maglona ar ôl gwraig Tecwyn ac fe'i cyfansoddwyd gan Mrs Lilian Briwnant Jones – oedd yn cyfeilio i Gôr Meibion Powys yn niwedd y 1950au. Fe'i hysgrifennwyd ar gyfer Eisteddfod y WI yn Harlech. Mae geiriau y garol Nadolig gan Hedd Wyn yn amserol ar y dôn Caersalem; fe'i cyfansoddwyd ganddo ym 1913 cyn mynd i'r rhyfel.

Mae tri thrac yn ddeuawdau gyda'i nai Alwyn Evans – arweinydd presennol Côr Meibion Aberystwyth - ac un o'r tair - Watchman, what of the night? - yn recordiad byw o gyngerdd yn Aberystwyth. Y ddwy ddeuawd arall yw'r dôn Rhondda a Bendigedig (Robat Arwyn).


Un o ffefrynnau Tecwyn yw'r unawd ' Arthur yn cyfodi' (W.S. Gwynn Williams) – yn ôl y sôn dyma y gân gyntaf i'w chanu yn fyw ar y radio o Gymru gan Meirion Morris o Lanuwchllyn ym 1923.

Bu'n gwefreiddio cynulleidfaoedd ers blynyddoedd ar lwyfanau y Canolbarth a phellach – dyma gyfle rwan i wrando ar ei lais bas-bariton ar gof a chadw.

Mae un trac hyfryd gan ei wyres, Alaw Fflur, yn canu yr alaw werin Saith rhyfeddod – alaw y mae Tecwyn yn cvofio ei dad yn ei chanu. Mae Alaw ym mlwyddyn 12 yn Ysgol Bro Hyddgen ac wedi ei dewis i fynd efo criw Urdd 2019 i Batagonia yn yr hydref. Dyma ganu pur a geirio clir gan ferch ifanc.

Recordiwyd y caneuon yn y Tabernacl, Machynlleth a Stiwdio Bing yn Hydref 2018. Cynhyrchydd y sain a dylunydd y cd yw Rhydian Meilir a'r cyfeilyddion yw Elenid Thomas, Penrhyn-coch a Susan Jones.

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



CIGYDD BOW STREET
01970 828447
Deli
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

## TREFEURIG

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Sera Wyn Walker, Llety'r Ddwylan, ar ei dyweddïad â Bob Gelsthorpe ar Ionawr 13. Dymuniadau gorau iddynt.

**Cerddwyr Rhydypennau**
Mwynhaodd grŵp cerdded Rhydypennau daith o Lyn Pen-dam (Pant-rhyd-ebolion) i Gwmerfyn ac yn ôl heibio Blaenmelindwr. Tynnwyd sylw aelodau newydd at siafftiau'r hen byllau plwm wedi'u capio gan ganiatáu i'r ystlumod gael mynediad.







# Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Dyffryn Banw 2019

Annwyl Olygydd,
Hoffwn wahodd eich Darllenwyr i'r Eisteddfod uchod gynhelir yn Nyffryn Banw ar Orffennaf 12fed a'r 13eg eleni. Mae'r Pwyllgor Gwaith wrthi yn paratoi gŵyl I'w chofio ac am sicrhau y byddwch yn cael croeso cynnes.
Os ydych am gystadlu dyma ddau ddyddiad pwysig i'w nodi yn eich dyddiadur:

**Mai 1af:** Cyfansoddiadau'r Adran Llenyddiaeth a Llenyddiaeth y Dysgwyr i gyrraedd Ysgrifenyddion y Pwyllgor Llên a Llefaru a'r Pwyllgor Dysgwyr.

**Mehefin 1af:** Cystadleuwyr y cystadlaethau llwyfan i anfon eu ffurflenni at Ysgrifenyddion yr Is-Bwyllgorau.
Mae'r Rhestr Testunau gyda'r cyfeiriadau a'r dyddiadau perthnasol I'w cael ar *smala.net/steddfota,* sef gwefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.
Gan obeithio y cawn eich gweld yn Nyffryn Banw ym mis Gorffennaf.

Yn gywir,

Dafydd Morgan Lewis
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 15 Ionawr yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd Richard Owen yn y gadair, a'r cynghorwyr Edwina Davies, Iona Davies, Mel Evans, Delyth James, Shân James, Kevin Jenkins, Gwenan Price, Tegwyn Lewis, Dai Mason ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc.

Personol: gyda thristwch, nodwyd fod y cyn-Gynghorydd Dei Rees Morgan wedi marw'n ddiweddar. Bu'n aelod gwerthfawr a ffyddlon o'r Cyngor Cymuned am flynyddoedd lawer hyd at 2017, ac fe gyfrannodd yn helaeth at waith y Cyngor fel y gwnaeth gyda chynifer o gyrff a mudiadau eraill yn y gymdogaeth. Yn sicr bydd bwlch mawr ar ei ôl yn yr ardal. Estynnwyd ein cydymdeimlad at y teulu, a safodd yr aelodau am funud o dawelwch er cof amdano.

Materion yn codi: roedd y coed ar dir Tan-bryn, Penrhiwnewydd yn dal heb eu torri. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi rhoi manylion y perchnogion i'r Cyngor Sir. Trefeurig – roedd y gwaith ger yr afon yn Nhrefeurig wedi'i gwblhau. Golau stryd ym Mhenrhyn-coch – dywedodd y Clerc ei bod wedi holi ROSPA, ond doedden nhw ddim yn gwneud arolygon o oleuni strydoedd. Addawodd y Cynghorydd Sir y byddai'n holi'r Cyngor Sir am rywun addas ar gyfer y gwaith. Meinciau – ni fu'r cais am fainc ychwanegol yn llwyddiannus.

Cynllunio: roedd cais gerbron am 19 o unedau (tai, byngalos a fflatiau) ar dir Pen Banc, gyferbyn â Bryntirion (cais A181180), cais gan Wales and West am dai cymdeithasol. Awgrymodd y Clerc y byddai'n well i'r Cynghorydd Shân James adael yr ystafell, ond penderfynodd Mrs James aros gan fod y tir wedi'i werthu i Wales and West, ac felly doedd ganddi hi ddim budd ariannol pellach ynddo. Ond ni chymerodd Mrs James ran yn y drafodaeth heblaw am ateb rhai cwestiynau ffeithiol am y tir. Eglurodd fod y caniatâd a roddwyd eisoes ar gyfer chwe thŷ ar y safle yn sefyll. Penderfynodd y Cyngor wrthwynebu'r cais fel y mae'n sefyll am y rhesymau canlynol: 1 - mae'n cynnwys gormod o unedau mewn lle mor fach; 2 - dylid felly leihau nifer yr unedau a chael gerddi mwy a mwy o le i barcio; 3 - dylid cael man gwyrdd yn y datblygiad er lles y trigolion; 4 - dylid sicrhau fod palmant addas o'r stad i lawr tuag at y pentref.

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

**inc**

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**

13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

*Trefnwyr Angladdau*

**C T Evans**

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Gwasanaethau'r Sul Capel Pen-llwyn**

*Mawrth*

**3** 10.00 Parch John Roberts
**10** 2.00 Bugail (Oedfa Gymun)
**17** 5.00 Parch Roger Ellis Humphreys
**24** 10.00 Oedfa'r Ofalaeth (Rehoboth Taliesin)
**31** 10.00 Bugail

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau cynnes i Mr. Peter Humphreys ar enedigaeth wyres newydd sbon. Ganwyd geneth fach i Gerallt ac Amber, Blaendyffryn, ganol mis Ionawr. Nid ydynt wedi penderfynu ar enw hyd yma. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Gwella**

Dymuniadau gorau i Mrs. Anne Davies, Maencrannog, Mr. Tom Davies, Sŵn y Nant a Mr.Noel Scott, Brynawel sydd wedi treulio peth amser yn yr ysbyty yn ddiweddar ond wedi dychwelyd i'w cartrefi erbyn hyn. Gobeithio y byddwch yn teimlo yn well yn fuan iawn.

**Marwolaeth**

Bu farw Mrs. Cassie Pugh yn ddiweddar yn 90 oed. Mae atgofion melys gennym o'r teulu yn byw yn Glynorig neu fel y cofiwn amdano y pryd hynny Gorsaf yr Heddlu. Roedd ei phriod John Pugh yn heddwas ym Mhen-llwyn a'r cyffiniau am flynyddoedd yn y pum a'r chwedegau. Bu Mrs. Pugh yn dysgu'r piano i sawl cenhedlaeth o blant ac yn wir roedd yn dal i gyflawni'r gwaith yma tan rhyw ddwy flynedd yn ôl, pan fu raid iddi adael ei chartref yn Aberystwyth ac ymuno â theulu cysurus Cartref Tregerddan. Mawr oedd ei chanmoliaeth o'r gofal a gawsai yma, a'r ymweliadau cyson gan Mair ac Elwyn a'u teuluoedd. Coffa da amdani a chydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu galar a'u colled.

Wrth i'r Tincer fynd i'r wasg daeth y newydd trist am farwolaeth Mr. Ieuan Griffith, Pennant. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i briod Glenys a'r plant Elfyn a Carwen a'u teuluoedd yn eu galar. (Bydd teyrnged yn *Nhincer* mis Mawrth)

**Merched y Wawr Melindwr**

Daeth llawer o aelodau i'n cyfarfod ar nos Fawrth 8fed Ionawr gyda bod chwe changen wedi ymateb i'r gwahoddiad i fwynhau noson o Pawb a'i Farn. Cyflwynwyd Cadeirydd y Panel, Mr Hywel Jones, gan ein Llywydd, Delyth Davies, gyda braslun o'i yrfa yn y byd addysg gorfforol cyn symud i weithio yng Nghaerdydd ac yna Mudiad Ysgolion Meithrin. Ond roedd yn gyfarwydd i ni fel gŵr un o'n haelodau ac yn byw yng Nghapel Bangor. Ar y panel roedd Deian Creunant, Eirwen Williams, Meirwen Williams a Gwenallt Llwyd Ifan. Diolchwyd i Eirwen Williams yn fawr iawn am lanw'r bwlch adawodd Caryl Lewis.

Aeth y panel ymlaen i ateb wyth cwestiwn yn cychwyn gyda disgrifiad o'u hatgof cyntaf, yna symud at farchnata lleol, cyn rhoi cynnig sut i wella'r dref! 'Roedd y panel yn cytuno bod cyfle efallai yn y dyfodol cael rheilffordd sydd yn cysylltu'r wlad yn gyfan heb orfod teithio allan o Gymru.Tâl am foddion oedd y pwnc nesaf ac roedd pawb yn cydfynd y dylem ni ofyn cyngor y fferfyllydd weithiau a prynu rhai moddion sydd ar gael yn y siopau gan eu bod nhw'n rhatach. Digwyddiad bach yn cael ei gynnal yn 2020 yn Nhregaron oedd y testun mwyaf poeth ac roedd pawb yn gytun y bydd Ceredigion yn mynd ati i lwyddo yn arbennig o dda. Sut i gyrraedd y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg newydd oedd y ddadl cyn dod at y cwestiwn olaf. Pwy fyddech yn ddewis ei gael gyda chi yn eich swper olaf? Pleser oedd yr atebion ac yn cynnwys yr Arglwydd Cliff Richard, Mark Hughes, neu Ryan Giggs, Ernest Hemingway a Ffermwyr Ifainc Llanfarian! Toedd dim rhaid gofyn pwy atebodd Aelodau Merched y Wawr Melindwr! Rhoddwyd y diolchiadau gan Nia Davies i bawb wnaeth y noson yn un lwyddiannus. Yna cafwyd llond ein boliau o swper wedi ei baratoi gan aelodau Melindwr. Cyn gorfen noswaith hollol wahanol i'r arfer tynwyd y raffl fawr.

Cynigwyd diolchiadau dwys gan y chwe changen, sef Bronnant, Llan-non, Llanfarian, Tal-y-bont, Rhydypennau a Penrhyn-coch am noswaith dda o gymdeithasu .

Ar noswaith dywyll a gwlyb beth well na troi'r meddwl at y Gwanwyn ac i'r ardd. Cyn croesawu ein gŵr gwadd roedd rhaid troi ein meddyliau at weithgareddau'r Mudiad yn enwedig y dosbarth celf a chreft ar Ebrill 6ed yn Nhŷ Glyn Aeron, yr Ŵyl Fai ym Machynlleth ar y 9fed o Fai yn Ysgol Bro Hyddgen.

Mr Gwyn Caradog Evans o Lanfihangel-y-Creuddyn ddaeth atom - cyn weithiwr gyda'r Comisiwn Coedwigaeth gynt. Mae yn ddyn adnabyddus i ddarllenwyr *Y Ddolen* a gwrandawyr gynt Radio Ceredigion gynt. Fe'n croesawyd gan ein Llywydd, Delyth Davies. Fel arbenigwr mae yn tyfu llysiau a blodau o bob math.

Erbyn hyn y mae yn farnwr mewn sioeau lleol. Dechreuwyd y cysylltiad gyda natur pan yn fachgen 8 mlwydd oed ym Mhen -Banc lle 'roedd gardd farchnad yn tyfu pob math o flodau a llysiau.

Roedd atgofion melys am y ffordd roedd yn paratoi ac yn llwytho pob dim i fynd i'w gwerthu adeg y rhyfel. Aeth ymlaen i'n cynghori ni am y rhai mae'n dyfu. Yn ei farn y tatws gorau allan o 640 math i wneud sglodion yw Majestic a King Edward am eu bod yn blasu mor dda. Rocket,Winston a Casablanca yw'r rhai cynnar gorau. Mae'n debyg bod 24 math o Dahlia ac yn wreiddiol yn dod o Mexico. Dahlia oedd enw'r person ddarganfyddodd nhw yn 1760. Gelwir y planhigyn yn Frenin yr Ardd oherwydd ei fod yn tyfu mor dal ac yn ymddangos mor hardd yn ei liwiau llachar. Deallwyd hefyd sut i wella tyfiant riwbob wrth ei godi yn mis Tachwedd ac i'w adael ar ben y pridd tan Mis Bach cyn ei dorri i fyny a'i ail osod yn ei wely. Roedd yn amlwg mai Pys Pêr oedd yn agos iawn i'w galon oherwydd yn Sioe Llanilar yn 8 oed cafodd ei garden coch cyntaf. Mae yn glir hefyd bod y dewisiad had yn bwysig dros ben i ennill gwobrau. Mae had Ffa dringo Benchmaster yn cropio'n drwm, gyda ffa hir iawn sydd yn tyfu mewn clwstwr. Cyn gorffen eglurodd sut i arbed clefyd ar blanhigion - sef pryfed a ffwng sydd yn eu taro nhw ac heb driniaeth yn eu dinistrio. Cynigwyd diolchiadau i Mr Evans gan Llinos Jones a thros baned cafwyd sawl cyfle i drafod ymhellach.

Y mis nesaf rydym yn dathlu Gŵyl Ddewi a byddwn yng Nghreftau Pennau yn mwynhau swper. Cofiwch nodi y dyddiad - Mawrth 12 am 7.00 erbyn 7-30.

**Edrych yn ôl**

Rhyw felys chwerw yw sylweddoli, nag oes raid poeni am newyddion y pentref mwyach, heblaw ysgrifennu rhyw eitem fach ddiddorol o dro i dro, efallai.

Mae ychydig dros ugain mlynedd yn gohebu, a henaint wrth y drws, gwaetha'r modd, yn sicr yn gofyn am ffresni newydd. Mae gohebwyr y ddau bentref cyfagos, wedi bod yn fwy na hynny,ac mae'r diolch iddynt am eu dyfalbarhad,

Oes, mae llawer o ddigwyddiadau y lleddf a'r llon wedi eu cofnodi, ar hyd y blynyddoedd. Bu y diweddar Mr Martin Davies yn gohebu o'r amser yr ymunodd Y Tincer ag ardal Melindwr, o Ionawr 1982 hyd bron ddiwedd y nawdegau.

Mae yna ddigwyddiad ymysg lawer, yn sefyll yn y cof, sef y prynhawn hwnnw, bu y Cylch Meithrin yn dathlu 40 mlynedd ac hefyd symud i'w cartref newydd o'r neuadd i'r caban wrth ochr yr ysgol ddyddiol. Edrych yn ôl gyda llawenydd, a'r sylfaenwyr yn cael eu trin fel tair brenhines. Prynhawn i'w gofio, a'r newyddion da yw fod y Cylch Meithrin yn dal i ffynnu.




Aeronwy Lewis

**Cydymdeimlad**

Trist oedd clywed am farwolaeth David Martin Williams yn Rhagfyr 2018 Yn fab i'r diweddar Dr John Williams a Bessie Williams – ac yn frawd i Dr Jonathan Williams bu Dai Martin yn fferyllydd a fu – ar ol astudio ym Mhrifysgol Caerdydd – yn gweithio yn Lloegr lle astudiodd i fod yn Ddeintydd ac Awstralia Bu y teulu yn byw yn 1 Dolypandy. Capel Bangor ar ôl dychwelyd o Awstralia cyn symud i Lanbadarn. Estynnwn eincydymdeimlad a'i wraig Carole, y meibion Jonathan a Gareth a'i frawd Dr Jonathan Williams a'r teulu.

**Eglwys Dewi Sant**

Cynhaliwyd noson goffi ar nos Wener, 7 Rhagfyr yn Neuadd yr Eglwys. Cafwyd adloniant hyfryd ac ardderchog gan Bois Ar Wasgar. Maent yn wreiddiol o ardal Pumsaint neu'r pentrefi cyfagos, ond erbyn hyn maen nhw i gyd wedi mynd "ar wasgar" gyda'i swyddi a'i gyrfaoedd. Mae ganddynt leisiau a doniau arbennig. Yr arweinyddes oedd Irene Williams a'r cyfeilydd oedd Elfyn Davies. Mae Irene ac Elfyn yn arbennig a dawnus dros ben. Hefyd tynnwyd y raffl fawr yn ystod y noson. Cyflwynwyd y parti a diolchwyd gan Y Canon Andrew Loat.

Ar nos Sul, 23 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth o garolau yng ngolau'r gannwyll. Darllenwyd y llithiau a'r penillion gan yr aelodau a'r Parchedig Heather Evans. Yr Organydd oedd Mr Maldwyn James. Cafwyd eitemau unigol gan Mrs Glenys Jenkins o Dal-y-bont, pan ganodd ddarnau hyfryd a swynol. Hyfryd oedd gweld cymaint o gynulleidfa yn bresennol. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Y Parchedig Heather Evans. Cafwyd gwin twym a mins peis yn yr Eglwys ar ôl y gwasanaeth.

Ar noswyl Nadolig cafwyd gwasanaeth hwyrnos am 11 yng ngofal Y Parchedig Heather Evans. Hefyd cafwyd gwasanaeth ar fore dydd Nadolig, gwasanaeth o Gymun Bendigaid am 9.30 yng ngofal Y Parchedig Heather Evans. Yr organydd oedd Mr Billy Evans.

# Cronfa Goffa'r Fonesig Grace James

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2019.

Yr ysgrifennydd yw:
Delyth Davies
Bryn Siriol
Lluest
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3AU
01970 617397
e-bost delythdavies6@gmail.com

# PENRHYN-COCH




**Dringo i fyny ….**
Croeso nôl o Dde America i Ioan Richards, y Ddol Fach, lle bu iddo ddringo Aconcagua yn Ariannin. Yn 6,962 medr o uchder, dyma'r mynydd uchaf nid yn unig yn yr Andes a chyfandir America ond hefyd y mynydd uchaf yn y byd y tu allan i Asia. Mae wedi ei leoli ym Mharc Rhanbarthol Aconcagua ac mae eira parhaol ar ei gopa.

**Suliau Horeb**

*Chwefror*

24 2.30 Ymuno ym Methel, Aberystwyth
Y Parch Peter Thomas

*Mawrth*

3 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
10 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa deuluol
17 10.30 Clwb Sul
2.30 Beti Griffiths
24 10.30 Y Parchg John Roberts
31 10.30 Clwb Sul ar y cyd yn St Ioan
Horeb - Tecwyn Jones, Machynlleth

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 27 Chwefror, 13 a 27 Mawrth. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Dei Rees Morgan**
Ganwyd Dei ar 21ain o Fawrth 1939 yn Nhrefenter. Roedd yn un o dri o blant; ei frawd Glanville, ei ddiweddar chwaer Elizabeth, ac yntau. Wedi mynychu Ysgol Gynradd Cofadail ac Ysgol Dinas, Aberystwyth, bu Dei'n gwasanaethu am rai blynyddoedd ar ffermydd yn ardal Llangwyryfon.

Yna, ym 1964, cafodd waith yn y Fridfa yng Ngogerddan. Bu'n gweithio yno am drideg a phedair o flynyddoedd fel fforman. Ymddeolodd o'r Fridfa ym 1998 yn dilyn salwch a'r un flwyddyn dyfarnwyd iddo Fedal Hir Wasanaeth Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru i gydnabod pedwardeg a phump o flynyddoedd o wasanaeth i amaethyddiaeth yng Nghymru.

Wedi dod i weithio i'r ardal hon dechreuodd gymdeithasu a chyn bo hir syrthio mewn cariad â merch leol, Eirian. Priodwyd y ddau ym 1968 — felly fe wnaethon nhw ddathlu eu priodas euraidd



y llynedd — ac ym 1972 ganwyd eu merch Rhian. Priododd hithau ag Alwyn yn 2002 a'u plant nhw, ac wyrion Dei, yw Carwyn a Gethin.

Fel tad-cu roedd Dei wrth ei fodd yng nghwmni'r ddau ŵyr. Roedd Carwyn ac yntau yn rhanu'r un deléit, sef pêl-droed, a diolch byth roedd y ddau yn cefnogi'r un tîm, sef Manchester United. Felly dim cwympo mas, dim ond cyd-lawenhau ar lawer achlysur, a weithiau - credwch neu beidio - byddai'r ddau'n gorfod cyd-dristáu. A phan fyddai'r wyrion a dad-cu a mam-gu yn mynd ar wyliau gyda'i gilydd yn y garafán i Drefriw a Llanrwst, fe fydden nhw'n treulio oriau ac oriau yn chwarae *crazy golf* ar Ben y Gogarth, (the Great Orme), yn Llandudno a llawer mwy o oriau yn chwerthin yn uchel achos roedd Dei yn hoff o gael sbort.

Roedd Gethin a'i dad-cu, ar y llaw arall wastad yn brysur yn gwneud dyletswyddau o gwmpas y lle, helpu ei gilydd i wneud job fach fan hyn a job fach fanco. Doedd dim un jobyn DIY nad oedd Dei yn fodlon troi ei law ati, ac yn gwneud hynny'n llwyddiannus gan amlaf.

Er iddo gael ei eni yn Nhrefenter daeth cymuned Trefeurig a phentre Penrhyn-coch i feddwl y byd iddo, ac fe weithiodd yn ddiflino yng ngwasanaeth yr ardal hon. Bu'n gadeirydd Neuadd y Penrhyn am dros ddeugain mlynedd. Mae ei chyflwr braf yn adlewyrchu llawer ar ei gyfraniad a'i ofal cyson. Bu hefyd yn gadeirydd pwyllgor y Sioe Arddwriaethol flynyddol; Trysorydd Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch yn y dyddiau cynnar. Roedd yn gyfaill da i'r *Tincer* ac yn ddosbarthwr ffyddlon am flynyddoedd. A bu hefyd yn gynghorydd ar Gyngor Cymuned Trefeurig am flynyddoedd lawer hyd iddo ymddeol o'r swydd honno yn 2017.

Roedd Dei yn eisteddfodwr brwd yn cystadlu'n gyson ar yr adroddiad digri ac yn arweinydd yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch. Byddai hefyd yn arwain cyngherddau yn yr ardal. Dyn cyhoeddus oedd e; ac eto byddai'n gweithio yn gudd trwy hyfforddi plant yr ardal i adrodd neu lefaru yn ei gartref er mwyn sicrhau fod y traddodiad yn parhau.

Dyn oedd yn gwneud argraff oedd Dei, un a wasanaethodd ei gymuned yn hael dros y blynyddoedd. Ond er ei fod yn ddyn prysur roedd ganddo'r amser i siarad â phobl, ac amser i chwerthin wrth gwrs.

Dyn oedd wastad yn brysur oedd Dei. Treuliodd ei brysurdeb pennaf



Diolch i Elsie Morgan, Bwthyn, am y llun o ferched Penrhyn-coch fu'n chwarae pêl-droed.O'r chwith i'r dde: Maureen Saycell,Eirlys Evans,Gillian Roberts, Vera Mary Evans, Morfydd Griffiths a Nesta Edwards yn eistedd

yng ngwasaneth y gymdogaeth hon. Erbyn hyn mae llawer yn gweld gwaith gwirfoddol fel roedd Dei yn ei wneud yn rhywbeth dieithr ac estron, ac eto i Dei dyna oedd y peth iawn i'w wneud, dyna oedd y peth naturiol i'w wneud. Mae ar yr ardal ddyled iddo, a'r ffordd o dalu'r ddyled honno yw bod yn barod fel yr oedd ef i wasanaethu bob amser.

**Urdd y Gwragedd**

Noson yng nghwmni Howard Jones sydd yn byw ers 2006 yn Llanbadarn ond yn dod yn wreiddiol o Gwm-gors, Gwauncaegurwen, fu'n siarad â'r gwragedd y mis hwn. Bu'n sôn am ei waith gyda VSO ble treuliodd ddwy flynedd yn yr Aswan yn yr Aifft ym 1973 yn dysgu Saesneg mewn ysgol i fechgyn. Treuliodd flwyddyn mewn canolfan yn Stockholm yn Sweden, bu yn Tanzania mewn canolfan yn cyfathrebu mewn audioleg a rhwng 1984-86 yn gwneud yr un math o waith yn Vietnam gyda phlant mewn cymuned i'r byddar. Daeth ei yrfa mewn addysg i ben yn 2014 ond roedd yn anodd eistedd nôl, ac mae'n dal i ymweld â rhai o'r gwledydd hyn yn achlysurol. Noson ddiddorol ac addysgiadol.

**Y Clwb Pêl-droed**

Ers dechrau Ionawr mae rhai newydd yng ngofal y Clwb – dymuniadau gorau i Dawn Gornall a Geraint Lewis o Benparcau. Maent ar agor am frecwast pob bore o Lun i Gwener rhwng 9.00 a 10.30 Oriau nos yw o 7 ymlaen tan cau ar nosweithiau Llun, Iau a Gwener a hanner dydd tan cau ar ddyddiau Sadwrn a Sul. Maent ar gau nosweithiau Mawrth a Mercher am y tro.

Gweinir cinio Sul – carferi yna ac mae modd ei gael wedi ei ddanfon. Maent hefyd yn darparu ac yn danfon prydau ar glud i bensiynwyr – dau gwrs – prif a phwdin am £5. Gellir cael mwy o fanylion ar eu tudalen Facebook neu trwy ffonio 01970 828992

**Brecwast yn y Neuadd**

Dydd Gwener 25 Ionawr cynhaliodd Undeb Amaethwyr Cymru frecwast blasus yn Neuadd y Penrhyn. Dyma Ben Lake AS ac Elin Jones AC gyda chynrychiolwyr yr Undeb.



**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Haydn Foulkes, Maesyrefail, ar farwolaeth ei fam yn Llanrwst ar 5 Chwefror.

ac â Dafydd Downes a'r teulu, Glanyrafon, ar farwolaeth ewythr – Ieuan Griffith, Capel Bangor.

**Athletwr y Flwyddyn**

Llongyfarchiadau i Ollie Thorogood – dim ond ers blwyddyn mae o yn aelod o Redwyr Ffordd De Ddwyrain (Lloegr) – mae bellach yn byw yn Nyfnaint ac yn aelod o Glwb Caerwysg (Exeter) – ond yn eu cyfarfod Blynyddol ar Chwefror 1af cafodd ei ddewis yn Athletwr y Flwyddyn.





**Sefydlu grŵp gwerin newydd**
Mae brawd a chwaer o Benrhyn-coch yn y grŵp gwerin newydd Tonnau ffurfiwyd yn ddiweddar. Y ddau yw'r athrawon Greg Vearey-Roberts (sydd yn dysgu yn Ysgol Plas-crug) a'i chwaer Beci, athrawes yn Ysgol Llanilar. Y ddau aelod arall yw Ifan Jonathan Thomas o Aberystwyth sydd wedi graddio mewn Rheoli Busnes a Claire Jones arferai ganu gyda Bob Delyn a'i Fand Gellir eu dilyn ar @Tonnau4

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**
Nos Iau y 10fed o Ionawr cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng ngwesty'r Halfway. Treuliwyd noson bleserus yng nghwmni ein gilydd a chafwyd croeso cynnes i'r gwesty lle bûm yn eistedd wrth danllwyth o dân yn sgwrsio gyda'n gilydd a chael hwyl yn gwylio hanes ein cangen ar y sgrîn fach o dan ofal Janice Morris, aelod oedd yng ngofal y camera ac wedi crynhoi lluniau o'r gangen ar hyd yr amser yn cynnwys gwahanol achlysuron oeddwn wedi bod ynglŷn â hwy. Diolchwyd iddi am ei gwaith ac i Sharon Jones am drefnu'r noson ac i'r gwesty am y croeso a'r bwyd blasus. Aeth pawb tua thre yn hapus iawn.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
*Tîm 1af*
Ionawr
05 Porthmadog 4 Penrhyn-coch 2
11 Penrhyn-coch 0 Y Rhyl 1
19 Y Fflint 2 Penrhyn-coch 1
26 Penrhyn-coch 1 Dinbych 2

Chwefror
02 Hotspur Caergybi 1 Penrhyn-coch 3
09 Cegidfa (Guilsfield) 1 Penrhyn-coch1
*Eilyddion Penrhyn-coch*
*Ionawr*
12 Bont 4 Penrhyn-coch 1
19 Penrhyn-coch1 Bont 3
26 Tyrffs Tregaron 9 Penrhyn-coch 1
*Chwefror*
09 Penrhyn-coch 1 Tal-y-bont 2

*3ydd Tîm*
*Ionawr*
19 Penrhyn-coch 5 Eilyddion Padarn 0
*Chwefror*
02 Gêm Gwpan grŵp 2 - Penrhyn-coch 4 eilyddion Llanilar 0
09 Gêm Gwpan grŵp 2 - Penrhyn-coch 1 Y Borth 1





Lluniau: Beverley Hemmings

*Menywod*
Ionawr
13 Tregaron 6 Penrhyn-coch 0
20 Prifysgol Aberystwyth 0 Penrhyn-coch 0
27 Felin-fach 3 Penrhyn-coch 0
Chwefror
03 Cwpan Cynghair - Prifysgol Aberystwyth 1 Penrhyn-coch 1. Enillwyd gan y Brifysgol ar ôl amser ychwanegol 2 -1

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Glyn Collins a Julie James.

Neuadd Eglwys Penrhyn-coch
Nos Lun 4ydd Mawrth 7.30 y.h.
Hanes Florrie Hamer (1903 – 1994)
Gan Helen Palmer Archifydd y Sir, Archifdy Ceredigion
Mynediad am ddim. Croeso cynnes i bawb

**Prawf Gyrru**
Llongyfarchiadau i Seren Jenkins, Garej Tŷ Mawr ar ôl pasio ei phrawf gyrru!

**Croeso**
Dymunwn roi croeso cynnes i bawb sydd wedi symud i fyw i'r Penrhyn yn ddiweddar, a chroeso i chi gyd ddod i ymuno â ni yn y gwahanol weithgareddau sydd yn mynd ymlaen yma. Mae'n bentre Prysur!

**Cymdeithas y Penrhyn**
Yr Athro Geraint Jenkins oedd ein siaradwr gwadd yng Nghymdeithas y Penrhyn, nos Fercher 16 Ionawr, ac fe rannodd â ni ei wybodaeth eang am *Y Digymar Iolo Morgannwg*. Yn ei dyb ef, dyma'r cymeriad mwyaf amryddawn, creadigol a lliwgar yn holl hanes Cymru. Heriwr yn erbyn y drefn ac athrylith na welwyd mo'i debyg.

Soniodd yr Athro Jenkins am fywyd Iolo Morgannwg – y saer maen tlawd, hunanaddysgedig, afiach o ran corff a meddwl, a chawsom gipolwg diddorol ar gefndir cymdeithasol Cymru ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif.

Mae'r rhestr o ddoniau'r cymeriad amlochrog hwn yn rhyfeddol. Roedd yn ffugiwr llenyddol o fri ac yn enwedig o hoff o ddynwared cywyddau Dafydd ap Gwilym. Roedd hefyd yn fardd ac emynydd dawnus. Daeth i enwogrwydd am sefydlu Gorsedd Beirdd Prydain yn 1792; yn dad Undodiaith yng Nghymru; gweriniaethwr radical i gelyn caethwasiaeth; Gwladgarwr a Chymro i'r carn. Mae rhestr ei dalentau'n ddiddiwedd ac yn ôl y sôn, gallai wneud marmalêd allan o foron!

Ceir yr hanes am yr unigryw Iolo



**Cynrychioli Cymru**
Llongyfarchiadau i Owen Jac Roberts ar ei lwyddiant yng Nglannau Dyfrdwy ar 8fed Chwefror. Pan ddaeth yn gyntaf yn ei oedran yng Nghynllun Datblygu Cenedlaethol Tymblo Cymru; bydd yn mynd ymlaen nawr i gynrychioli Cymru ym Mirmingham ym mis Mehefin.

Morgannwg yn y cofiant gan yr Athro Geraint Jenkins, sydd wedi'i gyhoeddi gan Wasg y Lolfa.

**Marwolaeth yr Athro Eric Hammond**
Trist oedd clywed am farwolaeth yr Athro Eric Hamp yn 98 oed - cyfaill triw i ysgolheictod Cymraeg, ymwelydd cyson â'r ardal hon a chyfaill i lawer o bobl yn Aberystwyth a Phenrhyn-coch, lle y cadwai ei gar 'Ewropeaidd' yn barod i yrru i Albania, neu i Napoli neu ble bynnag ...



**Chwefror 10fed bedyddiwyd Elsi Belle Marion Stowers, yn Eglwys St Ioan. Yn y llun fe'i gwelir gyda'i rhieni James a Katy a'i brodyr.**

## Colofn Enwau Lleoedd

Bydd y ffordd gefn sy'n mynd o Benrhyn-coch i gyfeiriad Tal-y-bont yn eich arwain drwy gwm neu geunant cul, gyda *Thy'n-cwm* yn ei waelod, a fferm *Pen-cwm* yn ei flaen. Er nad oes enw ar y cwm hwn heddiw, dengys tystiolaeth ddogfennol nad dyna'r sefyllfa'n hanesyddol.

Mae Gweithredoedd Stad Trawsgoed yn cyfeirio at *Cwmbanca* yn 1731 (rhif I. 739), ac at *Tyn-y-cwm-vunkir* yn 1755 (rhif I. 888). Ar un o fapiau Stad y Cwrt yn 1778 (*Maps of the Court Grange Estate, T. Lewis: Court Demesne*), rhestrir *Pen cwm bankir House* yn ogystal â choetir *Bron cwm bankir*. A chofnodir yr enw *Pencwmbanker* ar fap stad o Fryngwyn Canol a luniwyd yn 1834.

Ceir cyfeiriad anuniongyrchol at y cwm hefyd yn 1605-6 yn yr *Exchequer Proceedings Concerning Wales* (T. I. Jeffreys Jones, 1955, t.96) lle tystir i fodolaeth *Tythin y maen llwyd a'r* [sic] *war Kwm Bankar*. (Ni wyddom union leoliad y tyddyn hwnnw, ond tybed a yw'r *Cae garreg lwyd* a gofnodir ar dir *Pen-cwm* ar Restri'r Map Degwm yn cadw cof ohono? Mae'n werth nodi bod yr enw *Cae Garreg Lwyd* yn parhau ar lafar heddiw am gae arall cyffiniol ar dir yr un fferm.)

Er bod elfen olaf yr enwau hyn yn amrywio o ran ffurf o ddogfen i ddogfen, mae'n lled sicr mai *bancarw*, cyfuniad o'r elfennau *ban* 'corn' a *carw* 'hydd', sydd yma, gyda'r *-w* ddiacen wedi ei cholli i roi *bancar*. Ei ystyr yw 'corn carw', neu'n fwy penodol, 'arf wedi ei lunio o gorn carw'. Ond beth fyddai arwyddocâd hynny yng nghyd-destun y cwm dan sylw?

Pe safech yr ochr draw i Benrhyn-coch, yng nghyffiniau Peneberth, ac edrych tua'r gogledd, fel welech gefnen hir wastad yn ymestyn o Ogerddan i fyny i'r mynydd-dir. Yr unig beth sy'n amharu ar lyfnder y gefnen yw agen ddofn ceunant *Cwm Bancar*.

Y syniad yn yr enw yw bod y nant wedi naddu neu hollti'r gefnen a hynny fel petai gydag arf wedi ei lunio o gorn carw. Os felly, gellid cymharu'r enw ag enwau'r afonydd *Arad(r)* yn sir Gaernarfon, *Nodwydd* yn sir Drefaldwyn, a *Throsol* yn sir Gaerfyrddin.

Digwydd *bancarw* fel enw lle yng Nghanu Aneirin: 'kwr e vankeirw am gwr e *vanncarw*' (Ifor Williams: *Canu Aneirin* t.24), a chofnodir enghraifft arall o'r enw yn Siarter Aberconwy, lle gall fod yn ddisgrifiad o graig bigfain, debyg i gorn carw.

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru



**Y Tincer drwy'r Post**
Mae gan y Tincer drefnyddion newydd i'r gwasanaeth Y Tincer drwy'r Post. O hyn ymlaen y brodyr Edryd ac Euros Evans (33 Maes Afallen, Bow Street SY25 5BL) fydd yng ngofal y gwasanaeth – diolch iddynt am gytuno. Magwyd y brodyr ym Methesda, Gwynedd ond mae cysylltiadau teuluol ganddynt â Than-y-groes, Ceredigion a Bow Street. Gellir tanysgrifio i'w dderbyn trwy'r post am £18 y flwyddyn (£7 drwy ebost)– mae prisiau uwch os am ei dderbyn dramor. Pob hwyl iddynt ar y gwaith.

# Recriwtio tiwtoriaid rhan-amser Ceredigion

Ydych chi'n siarad Cymraeg? Oes cwpl o oriau rhydd gennych bob wythnos? Ydych chi'n mwynhau cymdeithasu a chwrdd â phobl newydd? Wel, beth am fod yn diwtor Cymraeg?

Mae Prifysgol Aberystwyth yn darparu dosbarthiadau Dysgu Cymraeg ledled Ceredigion. Mae'r angen am wersi yn cynyddu bob blwyddyn. O'r herwydd yr hyn sydd angen arnom yw siaradwyr rhugl i ymuno â'n tîm o diwtoriaid ymroddedig. Ydych chi'n fodlon ymateb i'r her?

Mae gennym ddysgwyr ar bob lefel, o ddechreuwyr pur, hyd at Lefel Uwch a Hyfedredd. Hefyd darperir cyrsiau Cymraeg yn y gweithle, ynghyd â chyrsiau Cymraeg i'r teulu, fel rhan o brojectau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Fel arfer mae ein dosbarthiadau yn cael ei cynnal trefi a phentrefi mawr fel Aberystwyth, Tregaron, Llambed, Llandysul, Aberteifi ac Adpar, er ein bod yn ymateb i'r galw sy'n golygu fod un cwrs uwch gennym ym Mhontarfynach, a dyfodd o gwrs ddwys i ddechreuwyr rai blynyddoedd yn ôl.

Rydym hefyd yn trefnu, ac yn annog, dysgwyr i fynychu digwyddiadau Cymreig yn eu hardaloedd lleol, gan gynnwys digwyddiadau dysgu anffurfiol, fel boreau coffi, clybiau siarad a thwmpathau, fel y bo'r iaith yn fyw i'r dysgwyr, ble bynnag maen nhw'n byw.

Mae'r dosbarthiadau yn denu dysgwyr o bob oed – rhai sydd newydd adael yr ysgol, rhieni gyda theuluoedd ifainc a phobl wedi ymddeol. Mae'r dosbarthiadau yn gallu bod yn y bore, trwy'r dydd neu gyda'r nos dros gyfnod o hyd at 30 wythnos y flwyddyn. Un datblygiad cyffrous diweddar yw'r Cwrs Carlam, sef cwrs dwys i ddechreuwyr sy'n cyfarfod bedwar bore'r wythnos yn Aberystwyth. Ac mae Cwrs Haf Prifysgol Aberystwyth yn fyd-enwog erbyn hyn, yn denu myfyrwyr o bob ban y byd am bedair wythnos ym mis Awst bob blwyddyn.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n frwd dros yr iaith, yn ddelfrydol â phrofiad o addysgu, ond mae hyfforddiant cynhwysfawr ar gael fel rhan o'r swydd. Ceir llawer o hwyl a boddhad wrth ddysgu'r iaith. Rydym yn dysgu trwy ymarfer patrymau iaith, chwarae gemau a chynnal gweithgareddau cyfathrebol, ond yn bennaf trwy siarad a chael hwyl.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am faes Dysgu Cymraeg, neu os oes gennych ddiddordeb mewn gwaith fel tiwtor, cysylltwch â Phyl Brake ar 01970 622680 neu ebostiwch pjb@aber.ac.uk.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor uchod ar nos Iau 31 Ionawr yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y cadeirydd, y Cyng Rowland Rees. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Ceredigion am braesept eleni o £17,500 = £21.89 am annedd Band D. Golyga hyn na fyddir yn mynd ar ofyn y trethdalwyr am fwy o arian na godwyd y llynedd. Esboniodd y Cyng Paul Hinge y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn siwr o godi y dreth eleni hyd at 7%. Mae'r Heddlu hefyd am godi eu treth tipyn yn uwch.

Penderfynwyd cyfrannu bloc grant i Neuadd Rhydypennau o £3,000 eleni, bydd hyn o gymorth iddynt dalu cyflog y lanhawraig, a fydd hefyd yng ngofal y toiledau.

Hon oedd y noson pryd y dosberthir rhoddion i elusennau lleol. Roedd y mwyafrif wedi amgáu mantolen ariannol gyda'r ceisiadau yn ôl gofyn yr Archwiliwr Cyffredinol. Dyma restr o'r elusennau a'r cyfraniadau. Ffrindiau Cartref Tregerddan £400, **Y Tincer** £500, Cymdeithas Maes Chwarae Rhydypennau £600, Pwyllgor Henoed £500, Mynwent Capel y Garn £500, Mynwent Noddfa £300, Cylch Meithrin Rhydypennau £500, Ambiwlans Awyr Cymru £200, Samariaid Aberystwyth £100, Sioe Arddwriaethol Rhydypennau £250, Clwb Ffermwyr Ieuainc Tal-y-bont £200, CAB £200. Eisoes cyfrannwyd £400 tuag at Noson Tân Gwyllt CPD Bow Street, a chyfraniad cyntaf tuag Eisteddfod Genedlaethol 2020 sef £1,500. Datgelodd rhai aelodau eu diddordeb mewn rhai o'r ceisiadau, ac ni chymerasant ran yn y trafodaethau.

Mae Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru mewn trefn, ac yn y swyddfa erbyn hyn, ac mae Archwiliad allanol 2017/18 hefyd mewn trefn.

Penderfynwyd gofyn i drigolion y Dolau a ydynt am gael hysbysfwrdd, yn y cyfamser gobeithir codi hysbysfwrdd ger Siop Spar, Bow Street ac un arall yn Llangorwen. Pwrcasir hwy o bosibl gan gwmni o Abertawe.

Adroddwyd bod y Goeden Nadolig Gymunedol wedi bod yn llwyddiant. Nid oedd yn bosibl cael Cymro i roddi hyfforddiant yn Gymraeg i'r Cynghorwyr yn ystod mis Chwefror, rhaid aros mae'n debyg tan mis Awst. Un Llais Cymru sy'n trefnu! Yn dilyn holiadur o ddrws i ddrws yn ystad Tregerddan, roedd y mwyafrif llethol am gael pyst gôl pêl-droed yn y cae chwarae. Rhaid penderfynu ar eu maint, bydd hefyd angen un siglen newydd a matiau, symudir dwy fainc o fan arall i'r cae.

Yn ei adroddiad dywedodd y Cyng Hinge fod trafferthion gyda'r cwteri ar y ffordd o Cwmcynfelyn i Ben-bont a bydd gweithwyr yn dychwelyd i ddatrys y broblem. Bydd cyfarfod ymgynghorol yn fuan yn Afallen Deg i drafod costau gosod offer galwad brys i sicrhau diogelwch y trigolion. Daeth cwynion o Faes Ceiro bod gormod o gerbydau yn cael eu parcio mewn ardal troi nôl (hammer head). Mae llwybr arfaethedig o'r Dolau i Rhydypennau yn dal i fod yn y bibell – ond fod y bibell yn un hir ar hyn o bryd! Bu ychydig o oedi gyda gwaith yr orsaf gyfnewid yn Bow Street, Cyfoeth Naturiol Cymru yn ofni fod rhywrai wedi eu claddu yn y cae, a bod eisiau dal y mafallod (newts) yn gyntaf! Roedd clymblaid Siapaneaidd (diolch i'r trenau am eu cario) angen eu clirio, (yn rhyfedd iawn ni sylwodd y gŵyr hyddysg fod gwarin moch daear gerllaw, enu efallai ni welem orsaf am flynyddoedd!). Bydd y Cyng Hinge yn mynd i'r afael â'r materion uchod.

Sylwyd mai The Orchard yw'r enw a osodwyd ar y tai newydd tu ôl i Brynteifi. Gofynnir i'r datblygwr ystyried yr enw Cymraeg Y Berllan.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 28 Chwefror 2019.

# Arfordir

Ei chlywed wnes, o bell
yn chwerthin gyda'i chriw,
ei llais yn gyllell
trwy wynt y môr.

Safwn innau yno
yn gwrthod symud,
yn gwrthod coelio
bod hon a'i North Face drud
yn gwarafun bro fy mebyd.

Syllais arni,
pwyso'n nes at destun ei sbri:
TRAETH WALLOG 1/4 MILLTIR

'What does that even mean?'
Jyngl o lythrennau,
cawdel ar bostyn pren.

Dau lwybr oedd,
dau ddewis yn oes oesoedd.

I lawr i'r traeth yn dawel,
yn ddall, yn ddiddeall,
ymddiheurio mwy neu lai
am drybini dybryd ein bod
cyn oedi, ar y tir draw
i glicio, tapio,
postio'r profiad ar byrth y We.

Dyma'r stwff sy'n tanio'r dydd.

Llwybr serthach oedd y llall
yn nadreddu'n droellog
tua'r glogwyn
lle byddai'n rhaid dringo,
chwysu, cydio yn y cerrig llac
i ddangos i hon a'i chriw
bod y tonnau'n dal i dorri
ar draeth ein hiaith
islaw.

Dal ati wedyn
dros y twyni, heibio'r dibyn
a theimlo'r hesg yn gwau'n hanesion
yn rhaffau praff am ein coesau,
lle daw hithau trwy'r heli
i holi
pwy'n union oedd y Brenin,
a Seithennyn, a'i strach?

Oddi yno, eu tywys
gan bwyll bach,
yn griwied bodlon, parod
hyd y lôn i lawr i'r Sarn
lle daw hithau yn ei selfie
i ryfeddu
at ruddin dwfn
y boncyffion brau.

Dau lwybr oedd,
dau ddewis yn oes oesoedd.

Oedais, cyn mentro ati,
roedd hon yn haeddu gwybod
nad yno i ddangos y ffordd
y mae'r arwyddion

ond dangos hefyd ein llwybrau,
ein hanes, a'n holion.

**Megan Lewis**



Dyma gerdd fuddugol Megan Elenid Lewis, (@MeganSarnau) o CFfI Trisant pan enillodd nid yn unig goron a chadair Eisteddfod CFFI Ceredigion eleni ond hefyd y ddwy brif wobr yn Eisteddfod Cymru y mudiad gan greu hanes. Catrin Haf Jones oedd beirniad y gadair ac yn ôl Megan "Mae'r gerdd yn deillio o daith gerdded ar lwybr yr arfordir o'r Borth i Aberystwyth. O weld pobl ddi-Gymraeg yn cael trafferth deall ac ynganu enwau lleoedd dwi'n ystyried pa lwybr y dylid ei ddilyn - y llwybr o'u hanwybyddu neu'r llwybr o ddweud wrthynt yr ystyr a'r hanes."

Mae Megan yn gweithio i'r cwmni cyfieithu Trywydd yn Aberystwyth a hi yw Bardd y Mis Radio Cymru mis Chwefror eleni. Gellir darllen rhai o'r cerddi gyfansoddodd yn ystod y mis ar wefan Radio Cymru.
Llun: Iestyn Hughes



## BOW STREET

**Suliau'r Garn**
**10.00 a (5.00)**
*Chwefror*
24 Bugail Nos (Bethlehem) Bugail

*Mawrth*
3 Bugail
10 Lyndon Lloyd
17 Bugail – cymun
24 Oedfa'r ofalaeth – Rehoboth
31 Eric Green

**Diolch yn fawr**
Dymuna Gareth, Hafle, Bow Street ddiolch i bawb am eu cymwynasgarwch, eu dymuniadau gorau a'r holl negeseuon caredig a dderbyniodd yn ystod ei salwch diweddar.

**Cymdeithas Chwiorydd Capel y Garn**
Shan Hayward, ein hysgrifenyddes weithgar, fu'n ein difyrru yng nghyfarfod mis Ionawr ar destun oedd yn dipyn o ddirgelwch ar y dechrau. Fodd bynnag, trwy luniau ar sgrîn a hanesion difyr agorwyd ein llygaid i bethau mae'r rhan fwyaf ohonom yn hen gyfarwydd â'u gweld heb sylweddoli eu harwyddocâd, sef arwyddion tafarndai.

Eurig Salisbury, y bardd a'r darlithydd, oedd y siaradwr gwâdd yng nghyfarfod mis Chwefror. Cafwyd awr o fwynhad pur yn gwrando arno yn trafod ei syniadau ac yn darllen rhai o'i gerddi mewn amrywiol fesurau - yn dribanau, yn gywyddau, yn limrigau,- a'r oll yn llifo'n rhwydd ac yn rhugl ac yn tynnu gwên bron yn ddi-ffael.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar Ŵyl Ddewi, sef dydd Gwener, Mawrth 1af,



pryd cynhelir oedfa leol Dydd Gweddi'r Byd yng Nghapel y Garn am 2.00, a hynny ar y cyd â chwiorydd Noddfa ac eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn. **Noder bod Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd bellach wedi newid yn Ddydd Gweddi'r Byd a bod croeso i bawb, yn frodyr a chwiorydd, ymuno yn yr oedfa.**

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau mawr i Bethan Haf Thomas, 26 Maes Ceiro, ar ei dyweddiad gyda Gareth Richards, Pen Cae'r Helm, Llanafan Fawr, ger Llanelwedd.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Dechreuwyd y flwyddyn newydd ar nodyn trist wrth i ni gofio am Eirian Dafis a oedd yn aelod brwdfrydig iawn, a gymerodd ran allweddol yng ngweithgareddau'r gangen. Talodd Brenda deyrnged hyfryd iddi. Bydd colled mawr ar ei hôl. Cofiwyd hefyd am Eunice Fleming a Jane Davies, cyn aelodau o'r gangen. Ar ôl trafod busnes y gangen cawsom noson o chwaraeon. Chwaraewyd dominos, chwist, scrabl ac amryw gêm arall - paratoi am chwaraeon cenedlaethol Merched y Wawr!!!!!!! Gorffenwyd y noson efo'r baned arferol yng ngofal Gweneira a Mair Lewis ac enillydd y raffl oedd Maria.

**Croeso**
Croeso i Sian a Jonathan Eurig a'r plant, Anest a Llŷr, sydd wedi symud o Aberystwyth i Cain Fallen.

**Brysiwch wella**
Gobeithio fod Elen Evans, Erw Las, yn gwella ar ôl anffawd yn ddiweddar ar rew.

**Cylchgrawn *The EGO* ar restr fer**
Llongyfarchiadau i gylchgrawn yr ***EGO*** sydd yn un o dri ar restr fer yng nghategori Cylchgrawn Cymreig y Flwyddyn yng Ngwobrau Cyfryngau Cymru. Cyflwynir y Gwobrau yng Nghaerdydd ar 22 Mawrth mewn seremoni fydd yn cael ei llywio gan Lucy Owen, cyflwynydd BBC Cymru Wales a Jonathan Hill o ITV Cymru. Huw Bates, Maes Ceiro yw un o sylfaenwyr a golygydd y cylchgrawn.

**Cydymdeimlad**
Trist oedd clywed am farwolaeth Eunice Fleming, gynt o Tregerddan, ar 11 Ionawr. Cydymdeimlwn â'r teulu. Bydd teyrnged yn y rhifyn nesaf o'r *Tincer.*




SIOP
SGIDIAU
GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd
graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod,
Dip.Pod.Med.






**Coeden goffa Trystan**
Yn dilyn marwolaeth sydyn Trystan Maelgwyn Jones o Gaerwen, Bow Street, o lid yr ymennydd ar 10 Chwefror 1992, penderfynodd nifer o'i gyfeillion ac athrawon yn Ysgol Penweddig blannu coeden er cof amdano yng nghae chwarae Rhydypennau lle treuliodd Trystan oriau lawer yn chwarae. Digwyddodd y plannu fis yn ddiweddarach ar 26 Mawrth. Bellach, aeth 27 mlynedd heibio ac mae'r gastanwydden wedi cyrraedd ei llawn dwf. Penderfynodd y teulu osod plac i nodi'r achlysur, ac yn y llun gwelir tad Trystan, Vernon Jones, llywydd presennol Clwb Pêl-droed Bow Street.

**Crafu Pennau**
Cafwyd noson hwyliog yn Neuadd Rhydypennau ddiwedd Ionawr, sef noson gwis a gwin, i godi arian tuag at Eisteddfod 2020. Dymuna'r pwyllgor apêl leol ddiolch yn fawr i Gareth William am baratoi cwis difyr, ac i Hywel Roberts am gamu i'r adwy,  gan wneud hynny â graen. Diolch hefyd i Iestyn Hughes am fod yng ngofal y lluniau a'r sain. Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol, sef Tîm Elin (Huw, Meinir, Hywel, Phil, Kate ac Elin). Codwyd rhyw £350 ar y noson – diolch i bawb am gefnogi. Digwyddiad nesaf  yr apêl fydd noson gyrri yn y Blac, Bow Street, 13 Mawrth, 7pm ymlaen. Ffoniwch Medi (07480 348 938) i gael tocyn (£10) gan nodi dewis cyrri cig neu lysieuol.

# Gofalaeth y Garn yn cefnogi elusen Hosbis yn y Cartref

Bore Sul, 27 Ionawr 2019, pleser oedd croesawu'r Dr Alan Axford, Cadeirydd yr elusen Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Aberystwyth a'r Cylch (HAHAV), i wasanaeth yr ofalaeth yng Nghapel y Garn, Bow Street. Yn dilyn gair gan y Gweinidog, y Parch Ddr R Watcyn James, cyflwynodd Mrs Janet Jones, Cadeirydd yr Ofalaeth, siec o £860.50 i Dr Axford er budd yr elusen. Dewiswyd HAHAV fel elusen yr ofalaeth ar gyfer 2018, gyda chasgliadau oedfaon yr ofalaeth yn cael eu cyflwyno er budd yr elusen. Cafwyd gair o ddiolch gan Dr Axford, ac amlinellodd dwf yr elusen dros y tair blynedd diwethaf hyn. Eleni, amcangyfrifir y bydd gwirfoddolwyr yr elusen yn darparu tair mil o oriau o gymorth i helpu cleifion a'u teuluoedd, a'r gobaith yw ehangu'r gwasanaeth yn y dyfodol drwy agor hosbis dydd yn yr ardal.




(O'r chwith) Yr Athro Gruffydd Aled Williams, Ysgrifennydd Gofalaeth y Garn; Mrs Janet Jones, Cadeirydd yr Ofalaeth; Dr Alan Axford, HAHAV; Mr Owen Jenkins, Trysorydd yr Ofalaeth; y Parch Ddr Watcyn James, Gweinidog.
[neu: Mrs Janet Jones, Cadeirydd yr Ofalaeth, yn cyflwyno siec i Dr Alan Axford, HAHAV. Hefyd yn y llun mae'r Parch Ddr Watcyn James, gweinidog Gofalaeth y Garn]



# MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog 2.00**

*Chwefror*
24 Bugail

*Mawrth*
3 Bugail
10 Lyndon Lloyd
17 Bugail
24 10.00 Oedfa'r ofalaeth - Rehoboth
31 Eric Green

**Priodas**
Priodwyd ar Ragfyr 29 yn Eglwys Llanbadarn, Nicola Meredith, merch Phil a Megan Meredith, Lluest Mews, Llanbadarn a Ben Willis. Cynhaliwyd y wledd yng Nglan-y-môr, Clarach ac mae y pâr wedi ymgartrefu yn Westbourne, Cefn-llwyd gyda'u merch fach, Lowri. Dymuniadau gorau iddynt.



**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Gwyneira Morris, Y Fronfraith, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

Bu Erwyd Howells, Tŷ Capel Madog yn Ysbyty Bron-glais am ychydig ddyddiau. Dymunwn wellhad buan i Erwyd.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Wyn Morris, Plas-y-Fronfraith, ar ennill gradd Doethur mewn Rheolaeth a Busnes o Brifysgol Aberystwyth.



# GOGINAN

**Genedigaeth**
Ganwyd merch fach - Bethan Anorah - i Gerallt ac Amber Humphreys, Blaendyffryn ar Ionawr yr unfed ar hugain; wyres i Peter Humphreys, Y Fron, Capel Bangor. Dymuniadau gorau i'r teulu oll

**Marwolaeth**
Trist yw nodi marwolaeth Thomas Llewellyn Islwyn James Jones, TirNaNog, Cwmbrwyno, neu " Islwyn Llwynteifi" fel yr adnabyddai pawb ef.

Cafodd ei fagu yn Llwynteifi, Ystumtuen yn mynychu yr ysgol leol ac yna Ysgol Ramadeg Ardwyn. Gadawodd yr ysgol i fynd i weithio ar y tyddyn adref ond buan cafodd waith drwy ymuno â 'gang' y Cyngor yn Ponterwyd. Aeth ymlaen i ofalu am ffyrdd bach a mawr ei ardal yn bartner gweladwy i'r diweddar Jim Alltygwreiddyn. Wedi ymddeol gwerthodd Llwynteifi a symud i DirNaNog a chafodd flynyddoedd hapus yn mynychu marchnadoedd a sioeau o Dregaron i Ddolgellau. Ar ôl gwaeledd cafodd groeso a gofal yng nghartref Tregerddan, Bow Street lle treuliodd ei flynyddoedd olaf yn gysurus iawn.

**Diolch**
Dymuna Mair Jones, Coedlan, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad mewn gair a gweithred yn ei phrofedigaeth o golli ei diweddar ŵr Gareth. Diolch yn arbennig am gymorth parod, gofal a chonsyrn gan bob un yn gymdogion a ffrindiau. Mae'r ymweliadau, galwadau ffôn a chardiau wedi bod yn gysur mawr. Derbynniwyd y swm anrhydeddus o £980 er cof am Gareth at "Calonnau Cymru." Gwerthfawrogwyd gyda diolch am yr holl haelioni.

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

## Ysgol Penweddig



Enillwyr a disgyblion enwebedig o flynyddoedd 7-9



Enillwyr a disgyblion enwebedig o flynyddoedd 10-13

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2019 ar nos Iau Ionawr 17eg yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gyda phob cynghorwr yn bresennol. Dymunodd y cadeirydd Aled Lewis Flwyddyn Newydd Dda i bawb. Derbyniwyd munudau y cyfarfod diwethaf, sef misTachwedd, fel rhai cywir.

Roedd un cais cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor, sef cais A181215. Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais. Trafodwyd a phenderfynwyd ar gyllid y Cyngor am y flwyddyn 2019/2020 a chwblhawyd y ffurflen Praesept.

Roedd y Cyngor wedi derbyn ceisiadau am arian oddi wrth rhai mudiadau lleol ac eraill a phenderfynwyd ar y mudiadau a fyddai yn elwa eleni.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Chwefror 21ain am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.




newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org

William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

MYNACH GARDEN MAINTENANCE

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**

Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**

07792 457816
01974 261758

e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

**Walker's Dog Walkers**



Cerdded cŵn a gwarchod anifeiliad.

**Bryn Walker**
Llety'r Ddwylan
Penbontrhydybeddau
Aberystwyth SY23 3EZ
01970 828066
07971942877
lletyr@btinternet.com

# Ysgol Penrhyn-coch

**Llangrannog**

Dydd Mercher 9 o Ionawr

Yn gynnar ar ddydd Mercher fe aethon ni ar ein taith antur i Wersyll yr Urdd Llangrannog! Ar ôl cyrraedd aethon ni i'r ystafelloedd i ymlacio. Ar ôl ymlacio fe aethon efo Mrs Evans i'r Neuadd fawr . Yna ddaeth dad Florence i siarad am reolau'r gwersyll ac yna fe aethon ni i gael cinio; roedd y cinio yn flasus iawn . Ein gweithgaredd cyntaf oedd nofio. Roeddwn i yn nofio fel siarcod ym mhob man! Cawom amser wrth ein boddau ac roedd gwyliau gyda fy ffrindiau yn anhygoel!! Adroddiad Lleucu- Bl 3

**Pêl rwyd yr Urdd**

Mi fuodd merched blwyddyn 5a 6 yn cystadlu a diolch i Miss Jones ac i Miss Hall am eu hyfforddi

**Disgo Dwynwen**

Fel rhan o lawnsiad y Siarter Iaith i randdeiliaid yr ysgol eleni cawsom ddisgo. Ein targedau eleni yw:

1.Siarad mwy o Gymraeg yn y coridor ac yn y Neuadd fwyta

2. Gwrando ar fwy o gerddoriaeth Gymraeg

3.Gwylio mwy o raglenni Cymraeg

Mwynheuodd bawb y disgo - hyd yn oed ein hymelwyr Seren a Sbarc.








**Gala Nofio Cylch Aberystwyth**

Cyfrifoldeb Miss Cory a Mr Shepherd oedd trefnu y Gala i ysgolion Cylch Aberystwyth eleni ac roedd y ddau wedi paratoi y trefniadau yn fanwl iawn! Mwynheuodd pawb y cyfle i gystadlu.

**Hoci**

Tîm Bro Dafydd wedi mwynhau cystadlu a gwneud eu gorau glas!

Tîm Penrhyn ddaeth i'r brig eleni eto wrth iddynt ennill y twrnament - roedd Miss Cory yn hynod browd o'r ddau dîm!

**Sbectrwm**

Blwyddyn 1 a 2 wedi mwynhau'r sesiynau ABCh fel rhan o gynllun Sbectrwm, Hafan Cymru.

Diolch i Mary am ddod i roi gwersi oedd yn llawn o weithgareddau hwyl am berthnasau iachus i flwyddyn 5 a 6

# Ysgol Craig yr Wylfa



**Ysgol Greadigol**
Y tymor yma, yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen, maent wedi dechrau "Ysgolion Creadigol" o dan arweinyddiaeth yr artistiaid, Elin, Llŷr a Ffion. Maent yn dilyn y thema "Archarwyr". Yn yr wythnos gyntaf o'r prosiect, wnaeth pob plentyn ddylunio bocs personol pert yr un gydag Elin. Pwrpas y bocsys yma, yw i gadw'r trysorau maent yn mynd i'w greu ynddynt. Yna fe wnaethant ddylunio Archarwyr arbennig eu hun fesul grwpiau.

Ail wythnos o'r "Ysgol Greadigol", cwrddodd y plant ag archarwyr go iawn - pobl y bad achub a pharamedic. Roedd y plant wrth eu boddau yn eu cwrdd ac yn cael cyfle i ofyn cwestiynau iddynt - hyd yn oed cyfle i weld ac i ddefnyddio monitor y galon! Hefyd, buont yn brysur gyda Llŷr yn cyfansoddi cân.

**Gala nofio'r Cylch**
Bu 9 o ddisgyblion CA2 yn cynrychioli'r Ysgol yng ngala nofio'r cylch eleni. Roedd pawb wedi nofio'n arbennig o dda - da iawn blant!

**Diolch, "Borth Ballers"**
Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Huw ag Andrew sy'n gyfrifol am dîm pêl-droed y plant, "Borth Ballers",am y goliau newydd sbon maent wedi eu rhoi i'r ysgol fel anrheg. Mae'r plant yn gyffrous i'w defnyddio, ac yn awyddus iawn i ymarfer eu sgiliau pêl-droed. Diolch!

**CogUrdd**
Da iawn i'r 5 disgybl a wnaeth gymryd rhan yng nghystadleuaeth CogUrdd eleni. Roedd eich kebabs llysieuol yn edrych ac yn arogli'n flasus iawn! Llongyfarchiadau i Dylan sy'n blwyddyn 6 am ennill, a phob lwc i ti yn rownd nesaf y gystadleuaeth.





# Ysgol Rhydypennau


**Llangrannog**

Ar fore Iau y 24ain o Ionawr,  fe deithiodd 26 o blant blwyddyn 4 i wersyll yr Urdd, Llangrannog am ddau ddiwrnod o ddifyrrwch. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysur iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys merlota, gwibgartio a nofio. Dychwelodd y plant i'r ysgol bnawn Gwener wedi blino'n lân ond wedi mwynhau profiadau'r gwersyll yn fawr iawn.

**Ymwelwyr**

Diolch yn fawr i Bridget James o elusen 'Bobath' am ddod mewn atom ni er mwyn dangos eu gwerthfawrogiad i'r ysgol. Cododd yr ysgol dros £200 yn ystod ein Diolchgarwch eleni tuag at 'Bobath' sef yr elusen sy'n helpu Parlys Ymenyddol.

Diolch yn fawr i PC Goffin, PC Hefin Jones a Karen Roberts (Gwasanaeth Tân) am ddod i'r ysgol yn ddiweddar er mwyn cyflwyno gwybodaeth a rhannu negeseuon pwysig iawn gyda'r plant am y peryglon yn ein cymdeithas a sut i gadw ein hunain yn ddiogel.



Bridget James o'r elusen 'Bobath'

**Cogurdd'**

Da iawn i bawb fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth 'Cogurdd' yn ddiweddar. Cystadleuaeth goginio wedi ei threfnu gan yr Urdd yw 'Cogurdd'. Roedd yn rhaid i'r cystadleuwyr ddilyn rysáit penodol, creu prif gwrs i ddau ac wrth gwrs blesio'r beirniad sef Susan Rowland, Tal-y-Bont. Llongyfarchiadau i Beca Davies, Blwyddyn 6, am ennill a da iawn hefyd i Llio Tanat (2il), Megan Hughes (3ydd) a Reian Morgan (4ydd). Mi fydd Beca nawr yn cystadlu yn y rownd ranbarthol yng ngheginau Ysgol Bro Teifi cyn hir. Pob hwyl iddi!

**Nôl mewn hanes**

Efallai fod gan rai ohonoch atgofion melys am y chwedegau; wel i blant blwyddyn 3 a 4, mae'r cyfnod yn hanes pell iawn yn ôl! Felly fel rhan o'u gwaith thema bu'r plant yn mwynhau diwrnod 'Y Chwedegau' yn yr ysgol er mwyn ail greu cerddoriaeth, ffasiwn a digwyddiadau pwysig y cyfnod. Unwyd gwaith technoleg i'r diwrnod hefyd wrth i'r plant ddylunio dillad amrywiol i fynd gyda ffasiwn y cyfnod.

**Chwaraeon**

Da iawn i'r tîm nofio am gystadlu mor wych yn ngala cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol a lwyddodd i orffen yn y tri cyntaf - Gwenno Jones a Gary Raggett (bl 3); Chloe Pemberton, Caryn James, Efa Hesden Kenny a Tali Lee McPherson (bl 4); Carys Williams Watkin, Taylor Evans, Jayden Downes, Morus Raggett, Gruffydd Siôn a Noa Elias Jones (bl 5).

A da iawn wir i'r tîm pêl-rwyd am gyrraedd ffeinal cystadleuaeth cylch yr Urdd yn ystod Ionawr. Ardderchog!



Tîm Pêl-rwyd yr Ysgol



Ymweliad gan P.C. Hefin Jones.



Ymweliad gan Karen Roberts o'r Gwasanaeth Tân.



Megan, Beca, Llio a Reian-Cystadleuwyr 'Cogurdd'



Diwrnod 'Y Chwedegau'.

**Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**
**@YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.**

# Ysgol Pen-llwyn

**Ffair Nadolig**
Cynhaliwyd ffair Nadolig yn yr Ysgol ar nos Fawrth, 18fed o Ragfyr. Roedd yr ysgol dan ei sang gyda rhieni a ffrindiau yr ysgol yn prynu cynnyrch y plant. Bu'r plant yn brysur yn creu nwyddau i lenwi'r stondinau diddorol gan gynnwys canhwyllau, sebonau, calendr yr Ysgol a siytni Nadolig.

Diolch yn fawr i'r siopau lleol, sef Exchange Stores, Capel Bangor, Siop y Bont ac Atebol am ddod i'n cefnogi ni a rhoi'r cyfle i ni orffen ein siopa Nadolig.

**Cinio Nadolig**
Diolch i Nia a Rhian am goginio cinio Nadolig blasus iawn. Diolchodd y plant i'r cogyddion am y cinio ardderchog y mae nhw yn ei gynhyrchu drwy gydol y flwyddyn.

Ar ôl ein cinio Nadolig, daeth Siôn Corn i roi anrhegion i'r plant. Derbyniodd pob plentyn fag darllen newydd sbon!

**Diwrnod Siwmperi Nadolig**
Roedd yr Ysgol yn lliwgar iawn gyda pawb yn gwisgo dillad Nadoligaidd. Roedd llawer o siwmperi hyfryd a chasglom ni arian tuag at elusen Achub y Plant.

**Cristingl**
Cafwyd ffordd Nadoligaidd i orffen y tymor. Ar ôl bore prysur o greu Cristinglau, treuliwyd y prynhawn yn cerdded i lawr i eglwys Dewi Sant. Cafwyd Gwasanaeth Cristingl gan gynnwys darlleniadau gan y plant a'r staff a chanu carolau gyda'r gynulleidfa.

**Canu Carolau**
Treuliwyd prynhawn bendigedig yng Nghartref Hafan y Waun yn diddanu'r preswylwyr. Bu'r plant yn canu amrywiaeth o ganeuon o'n sioe Nadolig, carolau a chaneuon am Siôn Corn. Roedd yn braf gweld llawer o'r cynulleidfa yn ymuno gyda'r plant i greu naws Nadoligaidd. Diolch yn fawr i'r staff am y croeso arbennig, dwi'n siwr byddwn ni nôl yn fuan.

**Croeso**
Dechreuodd disgybl newydd yn yr Ysgol dechrau'r tymor. Croeso mawr atom ni Megan. Gobeithio byddi di'n hapus iawn yn ein plith.

**Sbectrwm**
Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cafodd y disgyblion weithdy Sbectrwm lle cafwyd nifer o weithgareddau er mwyn atgoffa'r disgyblion o'i hawliau. Diolch yn fawr i Meri Jones am gynnal sesiynau diddorol iawn.

**Llangrannog**
Yn yr wythnos cyntaf yn ôl wedi'r Nadolig, cafodd disgyblion bl.3 a 4 gyfle i ymweld â gwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Er gwaetha'r tywydd oer, cafwyd llawer o hwyl a sbri wrth gymryd rhan mewn sawl gweithgaredd yn ystod y dydd a'r nos. Dechreuodd y trip gydag ychydig o saethyddiaeth, cyn symud ymlaen i'r gwibgartio lle roedd pawb wrth eu boddau yn hedfan i lawr y llethr serth. Cyn ei bod hi'n tywyllu, cafodd y plant gyfle i fynd ar y beiciau cwod, ar drampolîn enfawr y tu allan. Yna yn syth i'r ffreutur am swper cyn rhoi'r colur ymlaen ar gyfer y disgo am 8 o'r gloch.

Yn wahanol i arfer cysgodd pawb drwy'r nos cyn deffro i frecwast blasus. Marchogaeth yn y stablau oedd nesaf cyn ymlacio a chwarae yn y pwll nofio cyn mynd adref.

Roedd pawb wedi cael amser gwych!

**Gala Nofio Cylch Aberystwyth**
Braf oedd gweld nifer yn cystadlu yng ngala nofio'r cylch. Llongyfarchiadau mawr i bawb. Braf oedd gweld tîm cyfnewid blwyddyn 5 a 6 yn fuddugol yn y ras i ysgolion









bach. Braf oedd gweld Isabel Cooper yn fuddugol yn y ras rhydd i ferched blwyddyn 3. Da iawn bawb.

**Disgo Dwynwen**
Cynhaliwyd disgo i ddathlu Santes Dwynwen yn yr Ysgol. Cawsom ymwelwyr cyffrous, sef masgots y Siarter Iaith – Seren a Sbarc. Mwynheuodd pawb ddawnsio i hoff ganeuon y plant ac ymunodd ambell riant yn yr hwyl. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni am ddarparu'r lluniaeth.

# Tasg y Tincer



Freya

Diolch i bawb fu wrthi'n lliwio'r calonnau hyfryd mis diwetha. Wna i ddim holi sawl cerdyn Santes Dwynwen gawsoch chi!! Dyma'r enwau: Cennydd Davies, Llanilar; Anest Erwan, Bow Street; Freya Mae Watkins, Penrhyn-coch; Dylan Rhys Herron, Bow Street; Iestyn Evans, Y Borth; Ffion Haf Ingram, Capel Bangor.

Roedd yn grêt ambell enw newydd yn rhoi cynnig arni. Daliwch ati, bawb! Yr enw ddaeth o'r het oedd dy un di, Freya Mae – da iawn ti!

Ry'n ni yng nghanol cyfnod pencampwriaeth y chwe gwlad, a digon o gêmau rygbi cyffrous i'w gwylio – gêmau'r merched a'r dynion, wrth gwrs. Ry'n ni hefyd newydd ddathlu blwyddyn newydd y Chineaid ddechrau'r mis, a chroesawu dyfodiad blwyddyn y mochyn. *Kung Hei Fat Choi* i chi i gyd! Dau ddigwyddiad pwysig iawn arall sydd ar fin dod yw Diwrnod y Llyfr ar 7 Mawrth – gobeithio y cewch chi gyfle i sôn am eich hoff lyfrau neu wisgo fel eich hoff gymeriad. Mae digon o ffyrdd y medrwch ddathlu'r digwyddiad arbennig hwn. Ond cyn hynny, mae Mawrth y cyntaf, wrth gwrs, sef diwrnod o ddathlu i ni yng Nghymru – Dydd Gŵyl Ddewi! Dwi wrth fy modd efo'r cawl a'r pice bach, a'r cyfle i wisgo cenhinen Bedr â balchder ... ond mae'n bwysig dathlu ein bod ni'n Gymry pob dydd o'r flwyddyn!

Y mis hwn, gan fod Diwrnod y Llyfr a Dydd Gŵyl Dewi bron â chyrraedd, beth am liwio'r llun o'r ddraig? Mae hi wrthi'n trio dewis llyfr addas i'w ddarllen ar ei dydd arbennig! Mae croeso i chi sgwennu teitlau rhai o'r llyfrau! Beth fyddai yn eich pentwr chi, tybed? *Cymru ar y Map*, *Caffi Merelli*, *Ble mae Boc?*, *Y Criw Canol Nos*? Mae digon o ddewis, yn does?

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn dydd Gŵyl Ddewi – Mawrth 1af. Ta ta tan toc!

CYMRAEG — Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 416 | Chwefror 2019